

Rhybudd Cyflwyno Cais (FP244) – Nodiadau Canllaw

Ni all Staff Llys roi cyngor cyfreithiol. Efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Ewch i www.gov.uk/legal-aid neu cysylltwch â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol. Mae manylion eich swyddfeydd lleol a'r rhifau ar gyfer cysylltu i'w gweld ar wefan Cyngor ar Bopeth www.citizensadvice.org.uk

Talu ffi'r llys

Mae ffi llys yn daladwy, gan ddibynnu ar y math o gais yr ydych yn ei wneud. Er enghraifft:

- I wneud cais am ganiatâd i ddiwygio eich hysbysiad apelydd neu hysbysiad atebydd
- I gyflwyno tystiolaeth newydd gerbron y llys apêl na chafodd ei chyflwyno yn yr achos gwreiddiol
- I wneud cais am wÿs neu orchymyn i dyst fod yn bresennol
- I wneud cais am estyniad amser yn unol â chyfarwyddiadau a roddwyd gan y llys.

Nid oes ffi yn daladwy am gais drwy gydsyniad i ohirio gwrandawriad os bydd y llys yn ei dderbyn o leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad.

Beth os na allaf fforddio'r ffi?

Os nad oes gennych lawer o gynilion, neu os nad oes gennych unrhyw gynilion, os ydych yn derbyn budd-daliadau penodol neu os yw eich incwm yn isel, efallai y gallwch gael help i dalu ffi'r llys (a elwir hefyd yn ddileu ffi).

I gael rhagor o wybodaeth, neu i wneud cais am help i dalu ffioedd, ewch i gov.uk/get-help-with-court-fees. Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r rhyngwrwyd, gallwch gael ffurflen bapur (**EX160 – Gwneud cais am help i dalu ffioedd**) gan staff llys mewn unrhyw swyddfa llys teulu.

Llenwi'r ffurflen

Cwestiwn 3

Nodwch pa orchymyn yr ydych yn gwneud cais amdano a pham e.e. gohirio'r gwrandawriad oherwydd..., gwneud cais am estyniad i'r amser i gydymffurfio â chyfarwyddiadau oherwydd... ac yn y blaen.

Cwestiwn 5

Bydd angen gwrandawriad ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau a disgwylir i chi fod yn bresennol. Bydd y llys yn pennu dyddiad ac amser gwrandawriad ar gyfer y cais. Nodwch mewn llythyr eglurhaol unrhyw ddyddiadau na fyddwch ar gael arnynt yn ystod y chwe wythnos nesaf.

Ni fydd y llys yn ymdrin â'r cais heb wrandawriad ac eithrio yn yr amgylchiadau a ganlyn.

- Lle bo pob parti yn cytuno â thelerau'r gorchymyn y gofynnir amdano;
- Lle bo pob parti yn cytuno y dylai'r llys ymdrin â'r cais heb wrandawriad, neu
- Lle nad yw'r llys yn credu y byddai gwrandawriad yn briodol.

Ni fydd pob cais yn addas ar gyfer gwrandawriad ffôn a gallai'r llys wrthod eich cais.

Cwestiwn 6

Os nad ydych yn gwybod faint o amser y bydd y gwrandawriad yn ei gymryd, gadewch y blychau hyn yn wag. Peidiwch â dyfalu.

Cwestiwn 7

Os oes dyddiad gwrandawriad neu gyfnod treial wedi'i bennu'n barod ar gyfer eich achos, rhowch fanylion y dyddiadau hynny yn y blwch.

Cwestiynau 8 ac 8a

Nodwch yn y blwch a ddarparwyd at bwy yr ydych am i'r llys anfon copi o'r cais a beth yw'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno.

Cwestiwn 9

Yn yr adran hon rhowch yr wybodaeth yr ydych am i'r llys ei hystyried er mwyn cefnogi'r cais yr ydych yn ei wneud.

Os ydych yn dymuno dibynnu ar:

- **ddatganiad tyst**, ticiwch y blwch cyntaf a rhowch y datganiad ynghlwm wrth y rhybudd cyflwyno cais.
- **tystiolaeth ysgrifenedig** ar y ffurflen hon, ticiwch yr ail flwch a rhowch fanylion yn y lle gwag a ddarparwyd. Rhaid i chi hefyd gwblhau'r datganiad gwirionedd.
- Mae'n bwysig eich bod yn gwirio bod yr wybodaeth sydd yn yr hysbysiad yn gywir cyn llofnodi. Mae llofnodi datganiad gwirionedd anwir heb gredu'n onest ei fod yn wir yn ddirmyg llys. Gallai arwain at ddirwy, atafaelu eich asedau neu ddedfryd o garchar.

Cwestiwn 10

Rhaid i'r cais gael ei lofnodi a rhaid iddo gynnwys eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt cyfredol. Os ydych yn cytuno y gall y llys a'r partion eraill gyfathrebu â chi drwy system Cyfnewid Dogfennau, ffôn, ffacs neu ebost, cwblhewch y manylion.

Cyn dychwelyd eich ffurflen i'r llys

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- llofnodi'r ffurflen ar dudalen 2, (gallai ffurflenni sydd heb eu llofnodi gael eu dychwelyd a gallai hynny arwain at oedi cyn ymdrin â'ch cais);
- amgáu'r ffi gywir neu gais am help i dalu ffioedd;
- gwneud digon o gopiau o'ch cais a'ch dogfennau ategol. Bydd angen i chi gyflwyno un copi ar gyfer pob parti y mae angen cyflwyno'r ffurflen iddo ac un copi ar gyfer y llys.

Dylech dychwelyd ffurflenni sydd wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad isod:

**Family Division Appeals Office,
Floor 1M, Queen's Building, Royal Courts of Justice,
Strand, Llundain WC2A 2LL**

**DX 44450 Strand Ffôn: 020 7947 7192Ebost:
appeals.familydivision@hmcts.gsi.gov.uk**